



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddiad data lefel uchel ar addasiadau tai 2019-20

Gorffennaf 2021

Crynodeb Gweithredol

- Mae defnyddio addasiadau tai mewn cartrefi yn caniatáu i bobl fyw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Maent yn gallu helpu i atal cwmpïadau, a all arwain at orfod mynd ar frys i'r ysbyty neu berson yn gorfod mynd i ofal preswyl. Gallant hefyd helpu pobl i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl ar ôl arhosiad mewn ysbyty.
- Cesglir gwybodaeth am addasiadau tai wrth ddarparwyr addasiadau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau dadansoddiad data ar gyfer 2019-20. Mae'r data yn cwmpasu addasiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.
- Derbyniwyd gwybodaeth gan y 13 asiantaeth Gofal a Thrwsio, gan bob un o'r 22 awdurdod lleol, a chan 29 cymdeithas dai. Ni chyflwynwyd ffurflenni gan chwe chymdeithas dai, dau ohonynt yn gyrrff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a gymerodd berchnogaeth dros dai cyngor gynt. Nid yw'r adroddiad hwn felly yn darparu darlun lawn yn genedlaethol ynghylch cyflawni addasiadau tai.
- Bu gwelliant yn ansawdd y data a gasglwyd. Yn 2018-19, cafodd 22% o'r cofnodion a dderbyniwyd eu dileu am eu bod yn ddyblyg neu oherwydd eu bod y tu allan i'r cyfnod casglu o gymharu â 57% yn 2016-17. Eleni, 8% o'r cofnodion (n=2,900) yn unig gafodd eu dileu. Ohonynt, cafodd tua 1,200 eu dileu, yn syml, am fod dyddiad yr addasiad yn syrthio y tu hwnt i'r cyfnod casglu diffiniedig ar gyfer 2019-20.

Prif ganfyddiadau

- Cyfanswm yr addasiadau a gofnodwyd yn 2019-20 oedd 34,341.
- Cyflawnwyd ychydig dros hanner yr holl addasiadau a gofnodwyd (55%) gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Fe wnaeth awdurdodau lleol gyflawni 37% a chymdeithasau tai 8%.
- O'r 18,661 o addasiadau a gyflawnwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol, fe wnaeth 17,798 (95%) gostio £500 neu lai.
- Fel rheol mae addasiadau bach yn cael eu cyflawni mewn 10 diwrnod. Mae addasiadau maint canolig yn cymryd 124 o ddiwrnodau ar gyfartaledd a 242 o ddiwrnodau ar gyfer addasiadau mawr. Y ffigurau hyn yw canolrif neu "werth canol" y data. Mae hwn yn ddangosydd gwell na'r cyfartaledd cymedrig, y gellir ei wro gan gyfran o addasiadau gydag amseroedd cyflawni llawer hirach. Mae'r ffigurau'n debyg i'r rhai yn 2018-19. Yr amser (canolrif) a gymerwyd i gyflawni addasiad bach oedd 9 diwrnod. O ran addasiadau canolig a mawr, y nifer oedd 121 a 280 o ddiwrnodau yn ôl eu trefn.

- Yn nodweddiadol, y gost ar gyfartaledd am addasiad bach (gwerth canolrifol) oedd £125. Mae'n £4,700 am addasiad maint canolig a £14,916 am addasiad mawr.
- Ariannwyd tri allan o ddeg o addasiadau a gofnodwyd yn 2019-20 (29%) gan awdurdodau lleol, a hynny o'u cyllidebau eu hunain, gyda 13% arall yn cael eu hariannu gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Ariannwyd ychydig dros chwarter yr addasiadau (28%) gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym. Fe wnaeth gyllid gan HWYLUSO gynorthwyo i gyflawni 4,937 o addasiadau ac fe wnaeth y Gronfa Gofal Integredig gyflawni 2,029 yn fwy o addasiadau.
- Atal cwympiadau oedd y prif ganlyniad mwyaf cyffredin a ragwelwyd ar gyfer addasiadau (40%). Yr ail ganlyniad mwyaf cyffredin a ragwelwyd oedd mwy o annibyniaeth wrth fyw o ddydd i ddydd (37%). Fodd bynnag, ni all y data hwn ddangos buddion ataliol yr addasiadau yn y tymor hir . Er enghraifft, gall atal person oedrannus rhag cwmpo gartref hefyd osgoi'r angen iddo gael ei anfon i'r ysbyty neu fynd i ofal preswyl.
- Cwblhawyd tri o bob pedwar addasiad (76%) mewn eiddo perchenfeddianwyr.
- Gwnaed cyfraniad ariannol tuag at gost yr addasiad mewn 516 o achosion neu 1.5% o gyfanswm yr addasiadau.
- Ar y cyfan, roedd 9 o bob 10 o bobl (92%) a dderbyniodd addasiad tai ac a rhoddodd adborth, yn fodlon iawn gyda'r gwaith a gwblhawyd. Dywedodd llai na 1% (n=73) eu bod yn anfodlon. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ymateb tua thraean o'r addasiadau a gyflawnwyd; cyfradd ymateb o 35%. Mae hyn yn gynydd amlwg yn yr ymateb a gafwyd, sef 22% yn y flwyddyn flaenorol.

Cyflwyniad

1. Mae addasiadau tai yn chwarae rhan hanfodol ym mywydau pobl. Maent yn helpu pobl ag anableddau a phobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartref eu hunain. Maen nhw'n cadw pobl yn ddiogel, gan atal damweiniau fel cwympiadau, sy'n helpu i osgoi gorfod mynd i mewn i'r ysbyty oherwydd anaf, a thrwy hynny, lleddfu pwysau ar y GIG. Gall addasiadau hefyd helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynt fel y gallant ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Dechreuodd y cyfnod clo cenedlaethol i reoli'r achos o Covid-19 ar 23 Mawrth 2020, a oedd ar ddiwedd y cyfnod sy'n cael ei gwmpasu yn adroddiad hwn. Felly bydd ei effaith ar ddarparu addasiadau i'w gweld yn yr adroddiad blynyddol nesaf.
2. Mae addasiadau yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd bywyd pobl ac iechyd a lles corfforol a meddyliol, ac at flaenoriaethau polisïau Llywodraeth Cymru, sydd wedi eu nodi yn 'Ffyniant i Bawb'¹ a 'Cymru Iachach'². Maent hefyd yn cyfrannu at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, elfen graidd ohoni yw atal³, a Deddf Cydraddoldeb 2010, y mae oedran ac anabledd yn ddau o'r nodweddion gwarchoddedig.

Yr adroddiad hwn

3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau dadansoddiad annibynnol ar ddata ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Paratowyd yr adroddiad gan Practice Solutions Ltd., cwmni ymgynghorol sy'n cefnogi sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Data Cymru wnaeth lanhau a dilysu'r data crai a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Data

4. Dyma'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau blynyddol. Casglwyd y data o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Medi 2016 i Ragfyr 2017⁴ a'r ail adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019⁵.
5. Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn ar addasiadau tai a gyflawnwyd yng Nghymru gan awdurdodau lleol, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai, yn cynnwys cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr ("LSVT") a gymerodd drosodd stoc dai rhai awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys addasiadau ar draws amrywiol ddaliadaethau tai, pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, y rhai sy'n berchen ar eu cartref a'r rhai sy'n rhentu'n breifat.

¹ [Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth i Gymru Llywodraeth Cymru \(2017\)](#)

² [Cymru Iachach: Ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru \(2019\)](#)

³ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁴ [Dadansoddiad Rhaglen HWYLUSO Llywodraeth Cymru \(2018\)](#)

⁵ [Dadansoddiad data lefel uwch ar addasiadau tai 2018-19 Llywodraeth Cymru \(2020\)](#)

6. Cesglir y data a ganlyn i fonitro'r rhaglen:

- Darparwr/ sefydliad sy'n darparu
- Daliadaeth tai ee tai cymdeithasol; perchen-feddianwyr; rhentu preifat
- Ffynhonnell yr atgyfeiriadau ar gyfer addasiad(au)
- Canlyniad a ragwelwyd ee atal cwympiadau; mwy o annibyniaeth
- Math a maint yr addasiad ee bach; canolig; mawr
- Amser a gymerwyd i gwblhau'r addasiad(au)
- Cost yr addasiad(au)
- Ffynhonnell y cyllid
- Bodlonrwydd â'r addasiad(au).

7. At ddibenion adrodd ar gyflawni, mae addasiadau wedi'u rhannu'n dri chategori, sy'n cael eu diffinio fel "Safonau Gwasanaeth":

- Bach e.e. gosod canllawiau.
- Canolig e.e. cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau ar risiau, rampiau.
- Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo, yn cynnwys estyniadau.

Cyfyngiadau'r Data

Cwmpas y data

8. Roedd set ddata 2019-20 yn cynnwys gwybodaeth am tua 37,000 o addasiadau, o gymharu â thua 39,000 yn 2018-19. Mae hyn yn ostyngiad o 4%.
9. Dychwelwyd ffurflenni gan bob un o'r 13 o'r asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol a gan 29 o gymdeithasau tai. Mae hwn yn welliant amlwg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Wedi dweud hynny, ni wnaeth 4 cymdeithas dai a 2 sefydliad Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, a ffurfiwyd i gymryd drosodd rheolaeth stoc tai sy'n eiddo i'r cyngor, ddychwelyd eu ffurflenni.
10. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw rhywfaint o ddata ar addasiadau ar gyfer y bedair cymdeithas dai na ddarparodd ffurflenni. Daw'r wybodaeth hon o gofnodion gweinyddol ei rhaglen Grantiau Addasiadau Ffisegol. Ni wnaeth dwy o'r cymdeithasau tai ddarparu unrhyw addasiadau gyda chyllid Grant Addasiadau Ffisegol yn 2019-20. Fe wnaeth y ddwy sy'n weddill gwblhau nifer gymharol fach o addasiadau yng nghyd-destun y set ddata lawn (14 ar gyfer un a 23 ar gyfer y llall).
11. Heb y ffurflenni, nid yw'n bosibl dilysu'r data sydd ar goll gan y chwe sefydliad tai. Er y gwelwyd gwelliant arall yn 2019-20 yn nifer y sefydliadau a gyflwynodd ffurflenni, nid yw'r data yn set ddata genedlaethol gyflawn. Felly dylid trin hyn yn unol â hynny.

Ansawdd y data

12. Cyn ei ddadansoddi, roedd y set ddata'n destun dilysiad trylwyr i ganfod a chywiro data annilys, cofnodion dyblyg, cofnodion anghyflawn a gwallau penodol eraill o ran cofnodi data, lle bo hynny'n bosibl. Lle nad oedd yn bosibl cywiro'r data, cafodd ei ystyried yn annilys. Er bod yr ymarfer dilysu yn drylwyr, mae'n bosibl bod gwallau yn parhau i fodoli mewn nifer fach o gofnodion unigol.

13. Ar y cyfan, mae'n galonogol i weld bod gwelliant sylweddol arall wedi bod yn ansawdd y data a gasglwyd. Yn 2018-19, cafodd tua 8,500 o'r 39,000 o gofnodion (22%) eu dileu am eu bod yn ddyblyg. Elenir, o'r 37,242 o gofnodion a gafodd eu cyflwyno'r wreiddiol, 2,900 (8%) yn unig gafodd eu dileu. Cafodd tua 1,200 o'r rhain ei dileu am fod dyddiad yr addasiad y tu allan i'r cyfnod casglu diffiniedig.

Dadansoddiad

14. Dyma ddadansoddiad disgrifiadol o ddata 2019-20. Mae data o'r adroddiad blaenorol hefyd yn ymddangos mewn rhai manau.

Cyflawni'r addasiadau tai

15. Cwblhawyd dros 34,000 o addasiadau yn 2019-20. Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn ôl y math o ddarparwr.

16. Cwblhawyd dros hanner yr holl addasiadau (55%) gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Cyflawnwyd dros draean (37%) gan awdurdodau lleol. Cwblhawyd fymryn yn llai nag 1 ymhob 10 (8%) gan gymdeithasau tai.

17. Mae nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn 2019-20 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 1: Nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn ôl y math o ddarparwr, 2018-19 a 2019-20

Math o ddarparwr	2018-19		2019-20	
	Nifer	%	Nifer	%
Gofal a Thrwsio	19,901	65.8	18,864	54.9
Cymdeithas dai	1,747	5.8	2,926	8.5
Awdurdod lleol	8,504	28.1	12,551	36.6
Ni gafod darparwr ei enwi	83	0.3	0	0
Cyfanswm	30,235	100.0	34,341	100.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

18. Gellir gweld effaith y nifer cynyddol o ffurflenni eleni gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn y tabl.

Cost yr addasiadau

19. Mae cost yr addasiadau ar gyfartaledd, yn ôl y math o ddarparwr wedi ei nodi yn y tabl canlynol. Darperir y costau cyfartalog a chanolrifol ar gyfartaledd, a'r gost uchaf ac isaf.

Tabl 2: Cost yr addasiadau a gofnodwyd ar gyfartaledd yn ôl y math o ddarparwr, 2019-20

Math o ddarparwr	Cymedr £	Canolrif £	Isaf £	Uchaf £
Gofal a Thrwsio	204	104	0	32,790
Cymdeithas dai	2,990	1,080	0	122,216
Awdurdod Lleol	2,857	524	0	158,818


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (i) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

(ii) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf

(iii) Gall gwerthoedd sero fod yn wallau mewnbynnu data neu'r gwerth a fewnbynnwyd pan nad oedd gwybodaeth am y gost ar gael

20. Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cyflawni nifer fawr o addasiadau llai. Y gost gyfartalog (gymedrig) yw £204 a'r gost fwyaf nodweddiadol (canolrif) yw £104. Y canolrif, sef "gwerth canol" yr holl gofnodion costau, yw'r dangosydd gwell o ran cost addasiad ar gyfartaledd. Gall y ffigur cyfartalog (cymedrig) gael ei wyro gan rai addasiadau sy'n costio cryn dipyn yn fwy nag eraill. Er enghraifft, cost gyfartalog addasiad yn 2019-20 a ddarparwyd gan awdurdod lleol yw £2,857. Fodd bynnag, bydd yr addasiadau mwyaf costus wedi effeithio ar y cyfartaledd hwn, a oedd yn cynnwys cost uchaf addasiad a gofnodwyd ar gyfer awdurdod lleol o fwy na £158,000.
21. Mae Siart 1 yn cymharu nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl band costau.



Ffynhonell: Llywodraeth Cymru

22. Fe wnaeth fymryn dan dwy ran o dair o'r holl addasiadau tai (62%) gostio £250 neu lai.
23. Mae Tabl 3 yn dangos nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn 2019-20 gan y tri math o ddarparwr, sef awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, ymhob un o'r bandiau costau.
24. O'r 18,661 o addasiadau a gyflawnwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio, fe wnaeth 17,798 (95%) gostio £500 neu lai. Mae hyn bron yn union yr un fath o batrwm a welwyd yn 2018-19 pan oedd 96% o'r hyn a gyflawnwyd gan Ofal a Thrwsio, o fewn y band costau hwn.
25. Mae awdurdodau lleol yn cyflawni mwy o addasiadau cost uchel. Er Enghraifft, cafodd 4 allan o 5 o addasiadau sy'n costio mwy na £10,000 (83%) eu cyflawni gan awdurdodau lleol. Gellir gweld yr un patrwm ymhob un o'r bandiau costau o £500 i fyny.

Tabl 3: Nifer yr addasiadau yn ôl y math o ddarparwr a'r gost gyffredinol, 2019-20

Cost cyffredinol	Math o ddarparwr			Cyfanswm
	Awdurdod Lleol	Cymdeithas Tai	Gofal a Thrwsio	
≤ £50	510	357	2,583	3,450
£50.01 - £100	1,566	281	6,405	8,252
£100.01 - £250	2,448	412	6,325	9,185
£250.01 - £500	1,612	230	2,485	4,327
£500.01 - £1,000	1,091	121	660	1,872
£1,000.01 - £2,500	1,062	286	84	1,432
£2,500.01 - £5,000	1,691	510	53	2,254
£5,000.01 - £7,500	1,301	380	44	1,725
£7,500.01 - £10,000	451	121	6	578
>£10,000	727	134	16	877
Cyfanswm	12,459	2,832	18,661	33,952

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

26. Roedd nifer yr addasiadau a gyflawnwyd gan gymdeithasau tai wedi'u gwasgaru'n weddol gyfartal ar draws y band costau.
27. Mae Tabl 4 yn crynhoi costau'r addasiadau yn ôl graddfa'r gwaith.

Tabl 4: Costau'r addasiadau ar gyfartaledd yn ôl maint yr addasiad, 2019-20,

Maint a math	Cymedr (£)	Canolrif (£)	Isaf (£)	Uchaf (£)
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	19,083	14,916	987	158,818
Canolig e.e. addasiadau fel cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau grisiau a rampiau.	5,082	4,700	0	50,402
Bach ee canllawiau.	264	125	0	24,447

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys (n=1,815);

(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf

28. Yn gyffredinol, mae cost addasiad yn cynyddu gyda maint yr addasiad. Cost addasiad bach ar gyfartaledd yn nodweddiadol (gwerth canolrifol) oedd £125.

Roedd yn £4,700 ar gyfer addasiad maint canolig a £14,916 ar gyfer addasiad mawr. Mae'r gost uchaf o £24,447 a gofnodwyd yn y categori "bach" yn anarferol. Gall hyn fod oherwydd bod yr addasiad wedi'i recordio'n anghywir neu o bosibl bod nifer o addasiadau yn yr un eiddo yn cael eu cyfrif fel un addasiad. Nid oedd yn bosibl cadarnhau hyn fel rhan o'r ymarfer dilysu.

Tabl 5: Nifer yr addasiadau yn ôl maint yr addasiad a'r math o ddarparwr 2019-20

Maint a math	Gofal a Thrwsio	Cymdeithas Dai	Awdurdod Lleol	Cyfanswm
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	14	88	500	602
Canolig e.e. addasiadau fel cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau grisiau a rampiau.	306	1,217	3,950	5,473
Bach e.e. canllawiau	17,372	1,612	7,465	26,449
Cyfanswm	17,692	2,917	11,915	32,524


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (l) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys (n= 1,817)

29. Mae ffocws yr asiantaethau Gofal a Thrwsio o ran cyflawni'r addasiadau bach, wedi ei amlygu yn y tabl.

Ffynhonnell yr atgyfeiriadau

30. Gellir atgyfeirio am addasiadau tai mewn sawl ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys hunan-atgyfeiriad gan rywun sy'n teimlo bod angen help arno a chan sefydliadau yn y meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol a allai ddod i gysylltiad â pherson sydd angen help. Mae Siart 2 yn dangos yr ystod o atgyfeiriadau a graddfa gymharol yr atgyfeiriadau o wahanol ffynonellau.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodyn: (l) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

31. Daw mwyafrif yr atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau tai (49 %) gan Therapyddion Galwedigaethol sy'n ymwneud â gofal pobl. Y prif ffynonellau atgyfeirio eraill yw asiantaethau Gofal a Thrwsio (13%), hunan atgyfeiriadau (11%) ac awdurdodau lleol (8%). Roedd hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan aelod o'r teulu neu ffrind gyda'i gilydd yn cyfrif am ychydig dros 13% o'r holl atgyfeiriadau. Mae'r categori "Arall" yn cynnwys atgyfeiriadau gan gynghorwyr lleol, y gwasanaeth ambiwlans, Cynllun Cartrefi Cynnes NYTH, meddygon teulu, cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, ac asiantaethau gwirfoddol.
32. Er bod y canrannau'n amrywio ychydig, roedd y ddwy brif ffynhonnell atgyfeirio - therapyddion galwedigaethol ac asiantaethau Gofal a Thrwsio - yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2019-20, gwnaed 3,631 o atgyfeiriadau (11%) o gymharu â 1,797 (6%) y flwyddyn flaenorol. Er y derbyniwyd mwy o ffurflenni eleni a gallai fod yn un rheswm dros y cynnydd, mae'n bosibl y gallai mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o ran yr help sydd ar gael ar gyfer addasiadau cartref, hefyd fod yn ffactor.

Asesiad

33. Gofynnwyd i ddarparwyr gofnodi a oedd y gwaith addasu'n galw am asesiad gan therapydd galwedigaethol neu asesydd dibynadwy ai peidio. Yn 3,015 o'r 32,386 o achosion, nid oedd angen asesiad.
34. Ac eithrio gwerthoedd coll ac annilys yn y set ddata lle'r oedd angen asesiad, fe'i cwblhawyd gan therapydd galwedigaethol mewn 67% o achosion ac mewn 21% o achosion gan asesydd dibynadwy.

Yr amser a gymerwyd i gyflawni

35. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o 30,844 o gofnodion dilys, cyflawnir 85% o addasiadau mewn llai na 3 mis, a 98% o fewn blwyddyn.

Tabl 6: Amser a gymerwyd i gyflawni addasiadau, 2019-20

	Hyd yr amser (misoedd)							Cyfanswm
	<3 (1-90 o ddiwrnodau)	<6 (91-182 o ddiwrnodau)	<12 (183-365 o ddiwrnodau)	<18 (366-547 o ddiwrnodau)	<24 (548-730 o ddiwrnodau)	<30 (731-912 o ddiwrnodau)	<36 (913-1095 o ddiwrnodau)	
Nifer	26,193	2,505	1,667	358	94	25	2	30,844
Canran	85	8	5	1	<1	<1	<1	100

Fynhonnell: Llywodraeth Cymru

36. Mae nifer y diwrnodau a gymerir ar gyfartaledd i gyflawni addasiad yn cael ei gyfrifo o'r amser y canfyddir yr angen am addasiad i'r dyddiad y caiff ei gwblhau. Mae hyn, wrth reswm yn amrywio yn ôl natur yr addasiad(au) sydd ei angen/hangen.
37. Y nifer cymedrig o ddiwrnodau ar gyfartaledd a gymerir i gyflawni addasiadau bach yw 21. Ond, gelir gwro'r ffigur hyn yn sgil cyfran fach o amseroedd cyflawni hirach o lawer, ac, yn nodedig, y ffigur o 957 o ddiwrnodau ar gyfer yr

amser hiraf i gwblhau'r gosodiad. Felly mae gwerth canolrifol y data sef 10 diwrnod - yn ddangosydd gwell o ran pa mor hir mae'n ei gymryd yn nodweddiadol i gyflawni addasiad bach. Mae'r ffigur hyn yn debyg iawn i'r gwerth canolrifol o 9 diwrnod a gofnodwyd yn 2018-19.

38. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y diwrnodau a gymerwyd i gyflawni addasiad neu addasiadau. Yn seiliedig ar werth canolrif cofnodion, yr amser nodweddiadol a gymerwyd i gyflawni addasiad maint canolig oedd 124 o ddiwrnodau a 242 o ddiwrnodau am addasiad mawr. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn debyg i ffigurau 2018-19 figures, sef 121 o ddiwrnodau a 280 o ddiwrnodau yn ôl eu trefn.

Tabl 7: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y canfuwyd yr angen i'r dyddiad y cwblhawyd yr addasiad, yn ôl maint yr addasiad, 2019-20

Maint a math	Cymedr (Diwrnodau)	Canolrif (Diwrnodau)
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	283	242
Canolig e.e. addasiadau fel cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau grisiau a rampiau	149	124
Bach e.e. canllawiau a chanllawiau ar risiau.	21	10

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

39. Yr amser byrraf a gofnodwyd o ran cyflawni addasiadau bach a maint canolig oedd 1 diwrnod. O ran addasiadau mawr, cymerwyd 3 diwrnod. Mae'n gwbl ymarferol i addasiad bach gael ei wneud ar unwaith h.y. mewn un diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd yr ymarfer dilysu yn medru cadarnhau cywirdeb y data a gofnodwyd e.e. y ffigur o 3 diwrnod ar gyfer addasiad mawr.
40. Yr amseroedd hiraf a gofnodwyd ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr oedd 957 diwrnod, 865 diwrnod, a 945 diwrnod yn y drefn honno. Nid yw'r set ddata yn cadw gwybodaeth am y rhesymau dros yr amser a gymerwyd, a allai fod oherwydd dewis y cwsmer, rhesymau technegol, neu oedi na ellir ei osgoi fel rheoli cynllunio. Yn yr un modd, nid oes esboniad am y ffigur o 957 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer addasiad "bach".
41. Am resymau a nodir uchod ar gywirdeb y data a gofnodwyd ar ffurflenni, mae'r nifer uwch o ffurflenni a dderbyniwyd gan sefydliadau tai yn 2019-20, a'r ffaith bod addasiadau wedi'u teilwra i union anghenion unigolion, a fydd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth geisio dod i gasgliadau ynghylch newidiadau yng nghyflymder y gwaith a gyflawnwyd.
42. Mae amseroedd cyflawni nodweddiadol (gwerth canolrifol) yn amrywio o 9 diwrnod i asiantaethau Gofal a Thrwsio, sydd yn cyflawni addasiadau bach yn

bennaf, i 42 diwrnod i awdurdodau lleol a 59 diwrnod i gymdeithasau tai. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi data ar nifer y diwrnodau a gymerwyd gan ddarparwr.

Tabl 8: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y nodwyd yr angen hyd at y dyddiad y cwblhawyd yr addasiad, yn ôl y math o ddarparwr, 2019-20


Math o ddarparwr	Cymedr (Diwrnodau)	Canolrif (Diwrnodau)
Gofal a Thrwsio	18	9
Cymdeithas Dai	97	59
Awdurdod Lleol	92	42

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

43. Yn 2018-19, y gwerth canolrifol ar gyfer Gofal a Thrwsio oedd 8 diwrnod. I gymdeithasau tai mi oedd yn 45 diwrnod, ac i awdurdodau lleol, 38 diwrnod
44. Mae Siart 3 yn dangos y nifer nodweddiadol o ddiwrnodau a gymerwyd i ddarparu addasiad (gwerth canolrifol) yng nghyd-destun cost yr addasiad. Cyflwynir y costau mewn deg o fandiau costau o £50 neu lai ar y pen isaf i dros £10,000 ar y pen uchaf.
45. Ac eithrio addasiadau sy'n costio £100 neu lai, mae patrwm llinellol yn y data h.y. po uchaf yw cost addasiad, yr hiraf fydd yn ei gymryd i'w gyflawni. Gwelwyd y patrwm hyn ar draws yr holl fandiau costau yn 2018-19.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

46. Mae Tabl 9 yn ehangu ar y wybodaeth yn y Nhabl 8. Mae'n darparu'r cyfartaledd cymedrig, y gwerth canolrifol a'r ffigurau isaf ac uchaf ar gyfer nifer y diwrnodau a gymerwyd i gwblhau addasiadau ar gyfer pob un o'r bandiau costau

Tabl 9: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd o'r dyddiad y nodwyd yr angen hyd at y dyddiad y cwblhawyd yr addasiad, yn ôl cost, 2019-20

Cost cyffredinol	Nifer y diwrnodau	
	Cymedr	Canolrif
≤ £50	15	9
£50.01 - £100	13	7
£100.01 - £250	19	11
£250.01 - £500	28	16
£500.01 - £1,000	47	28
£1,000.01 - £2,500	94	68
£2,500.01 - £5,000	140	119
£5,000.01 - £7,500	162	141
£7,500.01 - £10,000	198	168
>£10,000	292	247

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (I) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys

(II) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r diwrnod agosaf

Cyllid

47. Mae addasiadau tai yn cael eu hariannu o nifer o ffynonellau:

- Cyllid gan Lywodraeth Cymru:
 - Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys.
 - HWYLUSO
 - Grantiau Addasiadau Ffisegol
 - Y Gronfa Gofal Integredig
- Awdurdod Lleol (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl).
- Awdurdod Lleol (Cyllid Arall).
- Cymdeithasau Tai (cyllidebau eu hunain).
- Cymdeithasau Tai (LSVT)(cyllidebau eu hunain).
- Fynhonellau cyllid eraill.

48. Mae'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys yn darparu cyllid cyfalaf a referniw i asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu mân addasiadau fel rampiau,

canllawiau a gwelliannau o ran hygyrchedd i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty ac atal cwympiadau. Rhaid cwblhau swyddi cyn pen 15 diwrnod gwaith .

49. Darperir cyllid grant HWYLUSO i awdurdodau lleol fel adnodd hyblyg, yn bennaf i gyflawni addasiadau bach a chanolig heb yr angen i droi at brosesau cymhleth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Cyflwynwyd y Grant yn 2015 i gefnogi integreiddio gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau iechyd ar lefel leol a rhanbarthol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn dirprwyo rhan o'u cyllid HWYLUSO a/neu eu cyllid eu hunain i asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol.
50. Mae'r Gronfa Gofal Integredig, a sefydlwyd yn 2014-15 fel y Gronfa Gofal Canolraddol hefyd yn yn medru ariannu cymhorthion, offer ac addasiadau tai yn ôl disgrisiwn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy eu rhaglen gyfalaf. Y prif fuddiolwr fu asiantaethau Gofal a Thrwsio.
51. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am Grantiau Cyfleusterau'r Anabl o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Maent yn grantiau gorfodol sydd ar gael i helpu pobl anabl a phobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent ar gael i bob daliadaeth. Mae'r grant yn destun prawf modd ac mae lefel y cyfraniad y mae'n rhaid i ymgeisydd ei dalu tuag at gost y gwaith yn dibynnu ar eu hincwm, eu cynilion a'u treuliau. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau. Mae grantiau ar gyfer plant anabl yn cael eu heithrio rhag prawf modd. Mae gan awdurdodau lleol ddisgrisiwn hefyd i ariannu addasiadau o'u cyllidebau eu hunain.
52. Mae'r Grant Addasiadau Ffisegol yn darparu cyllid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig addasu eiddo tenantiaid. Mae'r gwaith hwn yn galluogi tenantiaid i aros yn eu cartrefi ac maent yn cynnig atebion ymarferol i newidiadau mewn amgylchiadau. Mae fersiwn safonol y grant yn darparu ar gyfer addasiadau mwy, a mwy cymhleth, tra bod y fersiwn llwybr carlam yn darparu ar gyfer gwaith llai.
53. Ni all y sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, sy'n gymdeithasau tai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd y stoc dai o ddwylo rhai awdurdodau lleol, wneud cais am Grantiau Addasiadau Ffisegol. Mae'n ofynnol iddynt ariannu addasiadau drwy eu hadnoddau eu hunain a/neu drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i ariannu addasiadau. Gall cymdeithasau tai eraill hefyd benderfynu ariannu rhai addasiadau tai, drwy ddefnyddio'u hadnoddau ariannol eu hunain.
54. Mae'r tabl a ganlyn yn cymharu nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl y ffynonellau gwahanol.

Tabl 10: Nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl y ffrwd gyllido, 2019-20

Ffrwd Gyllido	Nifer	Y Cant
Awdurdod Lleol (Arall)	9,967	29.1
Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys	9,496	27.7
HWYLUSO	4,937	14.4
Awdurdod Lleol (Grantiau Cyfleusterau'r Anabl)	4,350	12.7
Y Gronfa Gofal Integredig	2,029	5.9
Cymdeithas Dai (LSVT)	1,044	3.0
Grantiau Addasiadau Ffisegol (Llwybr Carlam)	951	2.8
Arall	587	1.7
Grantiau Addasiadau Ffisegol (Safonol)	534	1.6
Cymdeithas Tai (Traddodiadol)	342	1.0
Cyfanswm	34,237	100.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (i) Nid yw'n cynnwys cofnodion a gyflwynwyd gyda gwerthoedd coll neu annilys (n=104)

(ii) LSVT – Corff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Cymdeithas Dai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd stoc dai awdurdod lleol.

55. O'r 34,237 o addasiadau a gofnodwyd yn 2019-20, cafodd fymryn dan draean (29%) gefnogaeth gan gyllid (arall) gan awdurdod lleol. Ariannwyd cyfran debyg (28%) gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym.
56. Fe wnaeth y rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym ariannu fymryn yn llai o addasiadau eleni (28%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (35%). Roedd gwahaniaeth amlwg yng nghyfradd yr addasiadau a ariannwyd gan adnoddau "eraill" mewn awdurdodau lleol, i fyny o 23% yn 2018-19 i 29% eleni. Fodd bynnag, un esboniad am hyn yw'r ffaith bod pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyflwyno ffurflenni yn 2019-20 o gymharu â 19 y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y grantiau a ariennir gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn debyg yn y ddwy flynedd.
57. Fe wnaeth y Gronfa Gofal Integredig gefnogi cyfradd uwch o addasiadau yn 2019-20 (6%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3%). Y niferoedd cyfatebol o addasiadau oedd 2,029 a 989 yn ôl eu trefn. Mae'r cyllid hwn, a'r cyllid gan raglen HWYLUSO (4,937 o addasiadau), yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol

at fyw'n annibynnol ac i atal ymweliadau diangen â'r ysbyty neu gartrefi gofal o ganlyniad i ddamweiniau fel cwympiadau.

58. Mae cost addasiadau a gefnogir gan y gwahanol ffrydiau cyllido, ar gyfartaledd wedi ei nodi isod.

Tabl 11: Cost addasiadau ar gyfartaledd yn ôl y ffynhonnell gyllido, 2019-20

Ffrwd Gyllido	Cost (£)	
	Cymedr	Canolrif
Awdurdod Lleol (Arall)	1,048	204
Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym	127	96
HWYLUSO	401	137
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	5,772	4,504
Y Gronfa Gofal Integredig	166	99
Cymdeithas Tai (LSVT)	811	135
Grantiau Addasiadau Ffisegol (Llwybr Carlam)	4,029	3,790
Arall	627	113
Grantiau Addasiadau Ffisegol (Safonol)	7,039	5,441
Cymdeithas Tai (Traddodiadol)	347	102

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: (i) Ac eithrio cofnodion gyda gwerthoedd coll neu annilys (n=99)


(ii) LSVT – Corff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr. Cymdeithas Dai a ffurfiwyd o ganlyniad cymryd stoc dai awdurdod lleol.

59. Y gost nodweddiadol ar gyfer addasiadau a ariannwyd gan rhaglen Grantiau Addasiadau Ffisegol Llywodraeth Cymru oedd £3,790 ar gyfer ceisiadau llwybr carlam a £5,441 ar gyfer ceisiadau safonol. Cyfartaledd canolrif Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer awdurdodau lleol oedd £4,504. Roedd y costau nodweddiadol (gwerthoedd canolrif) ar gyfer addasiadau a ariannwyd gan yr holl ffynonellau cyllid eraill yn amrywio o £96 i £204.

Canlyniad a ragwelir

60. Mae Siart 4 yn disgrifio'r prif ganlyniadau a ragwelir o ran rhywun sy'n derbyn un neu fwy o addasiadau i'w gartref. Mae'r canlyniadau'n dod â buddion i'r unigolion trwy wella ansawdd eu bywyd ac iechyd a lles corfforol a/neu feddyliol. Fodd bynnag, gall defnyddio addasiadau helpu i leihau pwysau a'r galw ar y GIG.

61. Y canlyniad mwyaf cyffredin oedd atal cwmpadau (40%), ac yna mwy o annibyniaeth i fyw o ddydd i ddydd (37%). Er bod y ffigurau hyn yn cynrychioli'r prif ganlyniad a ragwelir, mae lluo o fuddion yn bosibl ee, gall addasiad lle mae'r prif ganlyniad a ragwelir yn golygu atal cwmpadau, hefyd yn gallu helpu i atal ymweliadau â'r ysbyty sy'n deillio o gwmpas yn y cartref.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

62. Mae'r canlyniad a ragwelir yn amrywio yn ôl maint yr addasiad a ddarperir. Y prif ganlyniad a ragwelir ar gyfer tua hanner pob addasiad bach (47%) yw atal cwmpadau. Pwrpas 9 o bob 10 o addasiadau mawr (91%) yw mwy o annibyniaeth i fyw o ddydd i ddydd. Mae hyn yn debyg ar gyfer addasiadau maint canolig lle gwnaed 84% o'r holl addasiadau i gynyddu annibyniaeth ym mywyd o ddydd i ddydd.

Tabl 12: Prif ganlyniad a ragwelwyd, yn ôl maint yr addasiadau, 2019-20 (n=32,157) (%)


	Caniatáu rhyddhau o'r ysbyty	Atal cwmpadau	Mwy o annibyniaeth mewn bywyd o ddydd i ddydd	Mwy o fynediad i'r eiddo ac o'i gwmpas	Atal gorfod mynd i mewn i'r ysbyty	Cyfanswm (%)
Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	1	5	91	3	<1	100
Canolig e.e. addasiadau fel cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau grisiau a rampiau	1	13	84	2	1	100
Bach e.e. canllawiau.	12	47	25	<1	16	100

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

63. O ran 16% o addasiadau bach, y prif ganlyniad yw atal arhosiad yn yr ysbyty. Gosodwyd 12% arall i helpu rhyddhau o'r ysbyty. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau'n golygu bod tua 7,100 o unigolion wedi cael cymorth i osgoi gorfod mynd i mewn i'r ysbyty neu wedi cael cymorth i ddychwelyd i'w cartref eu hunain cyn gynted â phosibl ar ôl aros yn yr ysbyty. Mae hyn yn dangos y rôl y mae addasiadau yn ei chwarae wrth leihau'r galw ar y GIG.
64. Y prif ganlyniadau a ragwelir ar gyfer addasiadau canolig a mawr yw mwy o annibyniaeth mewn bywyd o ddydd i ddydd.

Atal mynd i mewn i'r ysbyty

65. Atal mynd i mewn i'r ysbyty oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd ar gyfer 4,439 o addasiadau .




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

66. Ariannwyd mwyafrif yr addasiadau sy'n nodi mai atal gorfod mynd i mewn i'r ysbyty yw'r prif ganlyniad a ragwelwyd, ariannwyd 53% (n=2,352) gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym.

Galluogi rhyddhau o'r ysbyty

67. Yn ogystal ag atal derbyn yn ddiangen i'r ysbyty oherwydd cwympiadau, defnyddir addasiadau tai i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn yn caniatáu i bobl ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Mae hefyd yn helpu i ryddhau gwelyau ar ôl i'r driniaeth ddod i ben ac yn helpu i leihau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.

68. Rhyddhau o'r ysbyty oedd y canlyniad a ragwelwyd ar gyfer 3,156 o addasiadau. Mae Siart 6 yn dangos y cyfraniad cymharol a wnaed gan bob un o'r ffynonellau cyllid.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

69. Cafodd mwyafrif yr achosion lle'r prif ganlyniad a ragwelwyd oedd hwyluso rhyddhau o'r ysbyty (1,478) eu hariannu gan y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym. Ariannwyd 791 arall gan y Gronfa Gofal Integredig.

Bodddhad Cwsmeriaid

70. Roedd tua 12,000 o'r 34,000 o gofnodion yn cynnwys sgôr gan y cleient o ran bodlonrwydd neu anfodlonrwydd o ran y gwaith a gwblhawyd i wneud yr addasiad(au). Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd ymateb o 35%. Er na ellir ystyried ei fod yn gynrychioliadol o'r rhaglen addasiadau tai yn ei chyfanrwydd, mae'n arwydd da o foddhad â'r gwaith a wnaed. Roedd y gyfradd ymateb yn 2019-20 yn uwch o lawer na'r 22% a gofnodwyd yn 2018-19.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

71. Ar y cyfan, roedd mwy na 9 allan o 10 o bobl (92%) a dderbyniodd addasiad i'w tai, ac a rhoddodd adborth, yn fodlon â'r gwaith a gafodd ei gwblhau. Dywedodd llai na 1% (n=73) eu bod yn anfodlon.

Daliadaeth

72. Gwnaed tri allan o bob pedwar addasiad (76%) mewn anheddau perchen-feddianwyr.




Ffynhonell: Llywodraeth Cymru

73. Cafodd i ymhob 10 addasiad (11%) ei wneud mewn anheddau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac roedd cyfran debyg (10%) mewn anheddau sy'n eiddo i gymdeithasau tai (cymdeithasau tai traddodiadol a'r rheini a grëwyd wrth drosglwyddo stoc tai yr awdurdod lleol). Roedd llety rhent preifat yn cyfrif am 3% o addasiadau.

Cyfraniad ariannol

74. Gwnaed cyfraniad ariannol tuag at yr addasiad mewn 516 o achosion. Roedd hwn yn nifer uwch i'r hyn a gofnodwyd yn 2018-19 (n=257). Mae'r siart isod yn dangos cyfraniadau ariannol yn ôl maint yr addasiad.



Ffynhonell: Llywodraeth Cymru

75. Yn y mwyafrif o achosion (58%) lle gwnaed cyfraniad ariannol, mi oedd ar gyfer addasiad bach. Er nad yw'r Safonau Gwasanaeth yn diystyru tâl am addasiad neu gyfraniad at y gost yn benodol, maent yn nodi na ddylai addasiadau bach fod yn destun prawf modd. Mae'r canfyddiad hwn yn deilwng i fod yn destun ymchwiliad pellach gyda'r sawl sy'n darparu addasiadau.
